Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 316 (Cy.30)

COMISIYNYDD PLANT, CYMRU

Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*6 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*9 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 74(2) (d) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 9 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

"y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Plant Cymru.

"y cyfnod cychwynnol" ("*the initial period*") yw y cyfnod cychwynnol fel y'i diffinir yn adran 161(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

"y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000.

Diwygiadau i Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001(**2**) yn unol â'r darpariaethau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(2) Yn dilyn dod i ben y cyfnod cychwynnol, ar gyfer y dehongliad o "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") rhodder y diffiniad canlynol:—

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodir o dro i dro fel Prif Weinidog Cymru o dan adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Diwygier rheoliad 13 fel a ganlyn —

(a) Ar ôl rheoliad 13(2), ychwaneger—

"(2A) Os bydd y Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru yn cyflawni eu priod swyddogaethau o dan y Ddeddf ac o dan Ddeddf Comisiynydd

(**1**) 2000 p.14
(**2**) 2001/2787 (Cy.237)